

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

### **COFNODION CYNGOR 3 IONAWR 2012**

#### **Presennol**

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng I C Thomas

#### **Cynghorwyr**

W T Owen, H Edwards, H W Roberts, W R Owen, A W Bohana, A Kirk,  
R Bonner Pritchard, M Thomas, G Thomas, W Ll Davies, G Thomas,  
Ll ab Alwyn

#### **Gweddïau**

Agorwyd y cyfarfod gyda gwedd gan Cyng H Edwards

#### **Siaradwr Gwadd : Nia Haf Davies – Cyngor Gwynedd**

Croesawyd Nia Davies gan Y Maer

Rhoddodd Nia gyflwyniad cynhwysfawr iawn ar y Cynllun Datblygu ar y cyd a dyma  
rai o'r brif nodweddion y cyflwyniad

#### **Cyd Destun**

Y cyd destun deddfwriaethol

Y Rhybudd Lleol

Rheoliadau a chanllawiau perthnasol ( canllawiau ar gael o wefan y  
llywodraeth)

Rhan bwysig o'r system cynllunio

Disodli unrhyw gynllun datblygu cyfredol

Felly beth ydi Cynllun datblygu lleol? Nodi bwriadau a pholisïau Awdurdodau  
cynllunio lleol ynglyn a datblygiadau a defnydd tir mewn ardal am gyfnod o  
15 mlynedd ac yn cynnwys - gweledigaeth defnydd tir, strategaeth, polisïau a  
chynigion, dynodiadau tir a map cynigion

#### **Nodweddion allweddol**

Amserlen - o fewn 4 mlynedd a hanner

Cynnwys cymunedau'n effeithiol - holl bwysig cael barn lleol

Integreiddiad polisiâu - cynllun defnydd tir yn hwyluso polisiâu mewn strategaethau a chynlluniau eraill gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid

Canolbwyntio ar gyflawni - uchelgeisiol ond realistig

Cadernid - 10 prawf cadernid a ddefnyddir i asesu'r Cynllun

Arfarniad Cynaladwyedd a Asesiad amgylcheddol strategol

Asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg- holl bwysig yn yr ardal

Asesiad Effaith cydraddoldeb

(cyrhaeddodd Cyng A Kirk am 6.15)

### Prif Gamau

Cytundeb cyflawni

Paratoi cynllun Cyn Adneuo

Cynllun Cyn Adneuo

Cyfnod ymgynghori o 6 wythnos

Cyhoeddi safleoedd amgen - fydd na rhywun wastad yn anhapus, wrth nodi safleoedd tydi nhw ddim wedi ei rhwymo

Archwiliad cyhoeddus

Adroddiad rhwymol yr Arolygydd

Mabwysiadu'r cynllun

### Cyfnod Cyfranogiad

Datblygu sail tystiolaeth

Gofrestr safleoedd posib - angen ymatebion cyn Chwefror 13

Tiroedd ar gyfer datblygu tai, siopau ag ati

Angen edrych ar safleoedd a be sydd o'i gwmpas, wedyn cwestiynau ydi'r safle yn mynd i helpu i gyflawni'r Strategaeth a'r polisiâu

Adnabod gweledigaeth ac amcanion

Edrych ar wahanol opsiynau

Cytuno ar faint o dwf ac yn lle

Un nod i'r Cynllun fydd diwallu anghenion tai yr ardal. Bydd angen edrych ar nifer o opsiynau posib o ran y cyfanswm o unedau tai a sut all yr unedau tai gael eu dosbarthu.

### Cwestiynau

Ydi diffiniad tai yn cynnwys fflatiau? - Ydi

Mi fydd y ffordd osgoi yn dylanwadu ar economi'r ardal anodd gwneud penderfyniad am yr opsiynau cyn gwybodaeth am y ffordd osgoi- rhaid penderfynu ar sail y wybodaeth sydd ar gael heddiw methu aros tan unrhyw gyhoeddiad am y ffordd. Y nod fydd cael Cynllun sy'n ddigon hyblyg i allu ymdopi a newidiadau arwyddocaol, ond bydd disgwyl adolygiad llawn o'r Cynllun pob 4 mlynedd.

Os ydi safle posib o fewn y "green belt" oes modd newid ei statws? - oes os ydio yn cryfhau'r strategaeth

Ydi datblygiadau fel mynwentydd yn cael ei ystyried o fewn y cynllun? Ydi ,mae modd nodi tir addas ar gyfer mynwentydd

Oes posib cael gwybod faint o dir mae Cyngor Gwynedd yn berchen yn Gwynedd ?  
Nia am holi, y clerc eisoes wedi cael ar gyfer Caernarfon

Ydi'r amcangyfrif tai yn cynnwys tai haf? Mae'r amcangyfrifon yn edrych ar beth yw anghenion tai yn yr ardal yn seiliedig ar nifer o wahanol ffactorau.

Gan fod y fethodoleg yn edrych ar batrwm mudo i mewn ac allan o'r ardal mae'n bosib y bod y ffigyrau'n adlewyrchu sut cafodd y dymuniad i gael ty haf yn yr ardal ei ddiwallu. Ar hyn o bryd ni all y system cynllunio defnydd tir wahaniaethu rhwng ty a ddefnyddir fel cartref parhaol a thy sy'n cael ei ddefnyddio'n achlysurol, h.y. os mai ty marchnad agored ydy o ni all y system gynllunio reoli pwy sydd berchen arno a phryd mae nhw'n ei ddefnyddio. Mi fydd yr asesiad Iaith yn chwarae rhan yn y broses o drio rheoli lle caiff tai marchnad agored eu lleoli - e.e dim dynodi tir ar gyfer tai mewn llefydd fel Abersoch. Bydd y broses o baratoi'r Cynllun hefyd yn edrych ar sut ellir hyrwyddo mwy o dai fforddiadwy angen lleol a gweld os oes tystiolaeth i gefnogi tai marchnad agored lleol.

Tydi hi ddim yn deg bod yna gyfnod o 6 wythnos o ymgynghori ac yna flwyddyn i'r Cyngor Sir ystyried - diffyg cydbwysedd- 6 wythnos ydi'r cyfnod statudol

Cydnabuwyd gwendid yn y ffurflen ymateb ond derbyniwyd cyngor gan Nia bod dal angen defnyddio'r ffurflen i ymateb gan anwybyddu'r adran honno

Gweler eitem 9 yn y rhaglen am y penderfyniad

## 1. Ymddiheuriadau

G Parry ( gweithio) M Powell Jones (salwch) A Y Williams (salwch )  
A Roberts ( salwch teulu)

## 2. Cyhoeddiadau'r Maer

Rhagfyr	1	Goleuo'r goeden, drama'r geni a charolau yn Neuadd y Farchnad
	2	Noson Garolau'r Rotari yn Eglwys y Santes Fair
Rhagfyr	6	Parti Dolig Cofis Bach yn Noddfa
	7	Cyngerdd Dolig Ysgol Pendalar
	9	Noson "Marchogion" a dathliadau Dolig yng Nghonwy
	10	Ymweliad a Groto Sion Corn y Llewod ar Y Maes
	13	Dosbarthu anrhegion yn Ysgol Pendalar
	13	Cyngerdd Tonic yn Galeri
	14	Dosbarthu anrhegion yng Nghartre Marbryn
	14	Dosbarthu anrhegion yng Nghartre Gwynfa
	14	Dosbarthu anrhegion ym Mhlas Maesincla
	14	Dosbarthu anrhegion yng Nghartre Willow Hall
	15	Gwestai yng nghinio Blyneddol Canolfan Noddfa
	15	Ymweliad a'r Maes i gefnogi noson siopa hwyr y Siambr Fasnach
	16	Dosbarthu anrhegion yng Nghanolfan Dydd Maesincla
	16	Gwestai yng nghinio Dolig mudiad Aphasia yn y Clwb Rygbi
	18	Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Llanbeblig
	19	Dosbarthu anrhegion yn Nrws y Nant
	19	Dosbarthu anrhegion i gleifion Ysbyty Eryri (sef canfed ymweliad Y Maer )
	19	Gwasanaeth Carolau yng Nghanolfan Noddfa gyda Cor Peblig
	21	Mynychu perfformiad Theatr Fforwm yn Feed my Lambs-trefniant Gisda
	21	Gwasanaeth Carolau Lodge Segontium y Seiri Ryddion
	22	Tynu Raffl Dolig Siambr Fasnach
	25	Ymweliad ac Ysbyty Eryri

Nodi bod y Cyngor yn falch clywed fod Gwenno gwraig Cyng A. Roberts adref am dymuno yn dda iddi  
Meddwl am teuluoedd y ddwy ferch ifanc o Lanberis, ac hefyd yr hogyn ifanc o Maesincla

## 3. Datgan Buddiant Personol

I C Thomas – cynllunio a'r rhai o panel cyllid os bydd trafodaeth  
W T Owen – cynllunio  
G Thomas (c ) – Gisda  
W L Davies – eitemau ar cofnodion Panel Cyllid

#### **4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc).** Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Atgoffa pawb am Cinio swyddogol trefi Caerog angen enwau a pres erbyn dydd gwener

#### **5. Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor, 6 Rhagfyr 2011
- ii. Panel Cyllid 20 Rhagfyr 2011

##### **Penderfynwyd**

- i. Derbyn fel rhai cywir
- ii. Mabwysiadu yr amcangyfrifon a derbyn y cofnodion fel rhai cywir

#### **6. Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio

##### **Penderfynwyd**

Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol

#### **7. Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

##### **Penderfynwyd**

Derbyn a'u talu

#### **8. Cysoni cyfrifon**

##### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

#### **9. Cynllun Datblygu ar Cyd Gwynedd a Môn**

(testun y Siaradwr Gwadd –efallai mai doeth fydd trafod cynnwys yr eitem yma fel rhan o'r cyflwyniad)

Wedi trafod yn dilyn y cyflwyniad a

##### **Penderfynwyd**

- i. gohirio trafod y safleoedd posib tan cyfarfod gyntaf mis Chwefror
- ii. pawb i ymateb parthed barn am y strategaeth i'r clerc erbyn dydd Gwener i drafod yn y cyngor nesaf

## **10.Unllais Cymru**

Parthed ymgynghoriad Cenedlaethol Tan ac Achub 2012

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth pawb i ymateb i'r clercc os yn dymuno erbyn diwedd yr wythnos

## **11.Heddlu Gogledd Cymru**

Lansiad y cyfnod ar yr Adolygiad o'r ystad

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **12.Cynhadledd i'r Clerc**

### **Penderfynwyd**

Talu i'r clercc fynd i'r cynhadledd

## **13.Llythyr diolch**

Canolfan ddydd Maesincla

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **14.Newyddion Mantell Gwynedd**

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **15.Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ymgynghoriad ar y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth a pawb sydd angen gwneud sylw trwy'r clercc erbyn dydd gwener

## **16. Bwletin Gwybodaeth**

Rhif 105 – Eich barn chwi ar Arian Ewrop

106 & 107 – Cyfleoedd Tendro yng Ngwynedd

### **Penderfynwyd**

105 – afon rhestr cwestiynau Hywel Roberts

106 a 107 derbyn er gwybodaeth

## **17. Cylchlythyr Gisda**

**Penderfynwyd**  
Derbyn er gwybodaeth

## **18. Unllais Cymru**

Panel annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol  
Edrych ar newidiadau yn haf 2012 ac angen edrych ar swm lwfans yn y  
cyfarfod blynyddol

**Penderfynwyd**  
Derbyn er gwybodaeth ond gan gofio am y lwfans ym Mis Mai  
(WRO ymatal ei bleidlais)

## **19. Unllais Cymru**

Prosiect Gwreiddiau Cryfion

**Penderfynwyd**  
Cynghorwyr W L Davies a M Thomas i gynrychioli'r Cyngor

## **20. Cwestiynau**

Dim

## **21. Trefi Caerog**

Clerc yn atgoffa pawb bod angen pres a dewis bwyd erbyn dydd Gwener

Gorffennodd y cyfarfod am 8.03

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....